GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	Rhif Cyfeirnod: AW16/TP04 Rhif Fersiwn: 1.0 Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: 08/12/2026

Gweithdrefn Cytundebau Rhannu Data / Datgelu Data

Cyflwyniad a Nod

Pwrpas y Weithdrefn hon yw amlinellu'r gofynion ar gyfer datgelu data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol â Chytundebau Datgelu Data a Rhannu Data.

Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Cysylltiedig

Polisi Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan

Cwmpas

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob prosiect yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Mae'r weithdrefn hon yn amodol ar yr AEGI a gwblhawyd ar gyfer y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth Polisi AEGI Llywodraethu Gwybodaeth
Cymeradwywyd gan	Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth
Dyddiad Cymeradwyo	08/12/2022
Dyddiad Adolygu	08/12/2026
Dyddiad Cyhoeddi:	11/01/2023
Cyfarwyddwr/ Cyfarwyddwr Gweithredol Atebol	Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.
Awdur	John Lawson, Swyddog Diogelu Data

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych chi'n ei defnyddio yw'r un ddiweddaraf naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r Tim Llywodraethu Corfforaethol.

Crynodeb o adolygiadau/gwelliannau				
Rhif	**Dyddiad**	**Dyddiad**	**Dyddiad**	**Crynodeb o'r**

fersiwn	Adolygu	Cymeradwyo	cyhoeddi	Gwelliannau
1.0				Dogfen newydd

NODYN PWYSIG

Ni ddylai unrhyw beth yn y weithdrefn hon atal rhannu data personol ar unwaith mewn argyfwng. Mewn achosion o'r fath dylid gofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Data neu Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.

1. Cyflwyniad

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol, rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rheolydd data allu dangos bod yr holl brosesu a wneir yn cael ei wneud yn gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw. Un o'r arfau allweddol ar gyfer cyflawni hyn yw angen cytundeb ffurfiol gyda'r parti arall dan sylw.

Mae'r Weithdrefn hon yn esbonio sut mae cytundebau o'r fath yn cael eu datblygu a'u cymeradwyo. Mae'r Weithdrefn hon yn ymdrin â rhannu a datgelu data personol fel y'i diffinnir mewn deddfwriaeth diogelu data a hefyd datgelu gwybodaeth adnabyddadwy bersonol nad yw'n cael ei chynnwys gan ddeddfwriaeth diogelu data ond sydd er hynny'n destun Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin. Er byrdra ac eglurder, defnyddir y term data personol drwy gydol y ddogfen hon i ymdrin â'r ddau fater a ddisgrifir uchod.

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r categorïau canlynol o gytundeb sy'n cael eu disgrifio isod:

- Cytundeb Datgelu Data
- Cytundeb Rhannu Data
- Contract Prosesu Data

2. Dulliau Datgelu a gwmpesir gan y Weithdrefn hon

Mae tri phrif fath o gytundeb y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymo iddo gyda sefydliadau eraill er mwyn rhannu data personol:

Cytundeb Datgelu Data. Dyma lle mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n rhannu data personol gyda Rheolydd Data arall i'w alluogi i ddefnyddio'r data at ei ddibenion ei hun mewn trafodyn unffordd.

Cytundeb Rhannu Data. Dyma lle mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhannu data personol gyda Rheolydd Data arall mewn trefniant o gyfnewid, lle mae'r rheolydd arall hefyd yn rhannu data gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Daw'r ddau sefydliad yn rheolyddion data ar gyfer y data a gafwyd a gallant ill dau wneud defnydd ohono at eu dibenion eu hunain.

Contract Prosesu Data. Dyma lle mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymo i gontract sy'n gyfreithiol rwymol â sefydliad arall, lle mae'r sefydliad hwnnw'n prosesu data personol a ddarperir gennym ni, yn unol â'n cyfarwyddiadau. Ni all y sefydliad ddefnyddio'r data personol at unrhyw ddiben arall heb ein caniatâd ysgrifenedig

penodol.

Mae'r gofynion ar gyfer Contractau Prosesu Data yn cael eu hamlinellu'n fanylach yn y Weithdrefn Asesu Effaith Diogelu Data ac felly nid ydynt yn cael eu trafod ymhellach yn y ddogfen hon.

Yn gyffredinol, ymrwymir i'r cytundebau hyn ar gyfer rhannu data a fydd yn digwydd yn rheolaidd neu o leiaf ar fwy nag un achlysur. Bydd achosion lle bydd angen datgelu data personol (e.e. datgelu data personol i Heddlu at ddibenion gorfodi'r gyfraith), lle na fydd gofyniad am gytundeb rhannu data ffurfiol. Mewn achosion o'r fath, dylid gofyn am gyngor gan y Swyddog Diogelu Data.

3. Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

Wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), fframwaith yw Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) y mae mwyafrif sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi ymrwymo iddo.

Mae gwefan WASPI yn darparu cytundebau templed i sefydliadau eu defnyddio ac yn darparu canllawiau a siartiau llif i arwain sefydliadau ar ddatblygu'r cytundebau priodol. Gellir gweld y wefan trwy'r ddolen hon.

Bydd yr holl Gytundebau Rhannu Data / Datgelu Data rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau heblaw'r GIG yn cael eu datblygu ar y templed WASPI priodol (gweler isod).

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau eraill y GIG yn cael eu datblygu ar dempled Cytundeb Oddi Mewn i'r GIG, sydd i'w weld ar y ddolen hon.

4. Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin

Mae'n bwysig nodi bod Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin (DCGG) hefyd yn berthnasol ym mhob achos lle mae gofyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Fodd bynnag, mae adegau pan nad yw deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol, ond mae'r DCGG yn berthnasol o hyd. Un enghraifft fyddai wrth ymdrin â data personol pobl sydd wedi marw.

Mewn achosion o'r fath, gall fod yn fwy priodol i'r cytundeb gael ei gymeradwyo gan Warcheidwad Caldicott y sefydliad. Anaml y bydd llinell glir yn y tywod ar y mater hwn, a mater i'r USRG a'r Gwarcheidwad Caldicott fydd cytuno pwy ddylai'r llofnodwr mwyaf priodol fod.

5. Rolau a Chyfrifoldebau

Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol / aelod o'r Tîm Gweithredol perthnasol yn gyfrifol am:

- Nodi'r gofyniad i rannu data personol
- Penodi Perchennog Ased Gwybodaeth

Bydd Perchennog Ased Gwybodaeth yn gyfrifol am:

- Sicrhau cwblhau AEDD
- Sicrhau cwblhau unrhyw dempled priodol ar gyfer rhannu data personol
- Adolygu'r dogfennau gorffenedig a'u hanfon ymlaen i'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
- Sicrhau nad oes dim data personol yn cael ei brosesu yn unol â'r cytundeb nes bod y ddogfennaeth wedi'i chymeradwyo yn unol â'r weithdrefn hon

Bydd Rheolwyr Llywodraethu Gwybodaeth yn gyfrifol am:

- Roi cyngor a chymorth i Berchnogion Ased Gwybodaeth
- Adolygu a gwirio ansawdd y ddogfennaeth ofynnol cyn ei chyflwyno i'r SDD.

Bydd y Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am:

- Gymeradwyo'r AEDD
- Anfon y ddogfennaeth ofynnol ymlaen at yr USRG i'w chymeradwyo.

Bydd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (neu Warcheidwad Caldicott – gweler para 4 uchod) yn gyfrifol am:

- Gymeradwyo'r Cytundeb Rhannu / Datgelu Data

6. Gweithdrefn

Pan nodir gofyniad i rannu data personol, bydd Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth dan sylw yn penodi Perchennog Ased Gwybodaeth (PAG) i gymryd cyfrifoldeb am y dogfennau. Rhaid i'r PAG drefnu yn gyntaf ar gyfer cwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data (AEDD). Bydd y ddolen hon yn mynd â chi i'r Weithdrefn Asesu Effaith Diogelu Data, ac argymhellir yn gryf hefyd y dylid gofyn am gyngor yn gynnar gan y Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth.

Pwrpas yr AEDD yw nodi unrhyw risgiau i breifatrwydd unigolion neu nodi ble y gallai fod risgiau i'r sefydliad y mae angen sylw arnynt. Bydd datblygu'r AEDD hefyd yn amlygu pa fath o gytundeb sydd ei angen. Yna gellir datblygu'r ddogfen hon ochr yn ochr â'r AEDD.

Pan fydd yr AEDD a'r Cytundeb Rhannu / Datgelu Data wedi'u cwblhau, dylai'r PAG anfon y dogfennau i'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth i'w hadolygu ac am wiriad rheoli ansawdd yn phw.informationgovernance@wales.nhs.uk

Ar ôl ei fodloni, bydd y Swyddog Diogelu Data (SDD) yn cymeradwyo'r AEDD. Os bydd risgiau'n weddill i fynd i'r afael â hwy, neu os bydd y SDD yn teimlo bod angen lefel uwch o gymeradwyo ar yr AEDD, bydd y SDD yn cynghori'r USRG ac yn gofyn am ei gymeradwyaeth.

Ar ôl i'r AEDD gael ei gymeradwyo, yna bydd y SDD yn gyfrifol am anfon y Cytundeb Rhannu Data / Datgelu Data wedi'i gwblhau at yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth am ei lofnod. Mater i'r USRG fydd penderfynu ai ef/hi yw'r llofnodwr mwyaf priodol neu a ddylid cyfeirio'r mater at y Gwarcheidwad Caldicott.

Ar ôl i'r AEDD a'r cytundeb gael eu cymeradwyo, byddant yn cael eu dychwelyd i'r PAG. Dim ond ar ôl i'r dogfennau gael eu cymeradwyo y ceir dechrau rhannu gwybodaeth.

Yna bydd y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud ar y Gofrestr Asedau Gwybodaeth.

7. Gofynion hyfforddi

Mae'r Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant i'r holl Berchnogion Ased Gwybodaeth. Mae gofyn hefyd i'r holl staff wneud hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth gorfodol.

8. Monitro cydymffurfiaeth

Bydd y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn monitro'r weithdrefn hon i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a sicrhau ei bod wedi'i gweithredu'n effeithiol.